# Ailddatblygiad 97-102 Stryd y Taf: Hen safle Marks and Spencer, Dorothy Perkins/Burtons.

Mae Horan Construction Limited yn falch o fod wedi cael ei benodi gan Gyngor Rhondda Cynon Taf i gyflawni ailddatblygiad newydd cyffrous yn 97-102 Stryd y Taf, Pontypridd.

Mae'r prosiect yma'n rhan allweddol o ailddatblygu Porth y De, ac rydyn ni yn y cam cyflawni. Mae hen safle Marks and Spencer, Dorothy Perkins/Burtons yn cael ei drawsnewid yn safle plaza modern ar lan yr afon.

Cafodd yr adeiladau eu dymchwel yn 2024 felly bydd y man cyhoeddus newydd yma'n llwybr llawn croeso rhwng y dref a'r parc; bydd yno ardal ar ei newydd wedd y bydd modd i bawb ei mwynhau.



### Trosolwg o Gynnydd

Mae'n bosibl eich bod wedi sylwi bod y byrddau ar hyd Stryd y Taf wedi mynd; mae hyn nawr yn galluogi'r cyhoedd i weld y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y safle. Er bod modd gweld golygfeydd o'r datblygiad yn sgil hyn, mae mesurau atal cadarn ar waith o hyd at ddibenion sicrhau bod y cyhoedd yn ddiogel drwy gydol y cam adeiladu.

Mae Horan Construction yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gwybod i bobl ynghylch yr hyn sydd ar waith yn eu tref. Ei nod yw bod yn agored a phroffesiynol wrth gyflanwi'r cynllun arbennig yma.

### Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

- Symud yr offer cynnal dros dro a gafodd eu gosod wedi'r cam dymchwel .
- Mae waliau'r ffin ar ochr orllewinol y safle wedi'u codi.
- Mae'r wal lifogydd oedd eisoes ar hyd ffin yr Afon Taf wedi cael ei chryfhau drwy'i gorchuddio â choncrit dur.
- Mae rhan uchaf y ffrâm ddur strwythurol a'r llawr concrit newydd wedi'u cwblhau.
- Mae 50% o ran ganol y ffrâm ddur strwythurol a'r llawr concrit newydd wedi'u cwblhau.

### Amserlen y Prosiect

- Dyddiad Dechrau: 17 Chwefror 2025
- Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig: Dechrau 2026

### Oriau gwaith

- Dydd Llun i ddydd Gwener: 8.00am–5.30pm
- Dydd Sadwrn: 8.00am–1.00pm





### Camau Nesaf – Gwaith sydd ar y Gorwel

Bydd sawl elfen allweddol o'r gwaith adeiladu yn cael ei datblygu yng ngham nesaf y prosiect:

- Cwblhau ffrâm ddur strwythurol y rhan ganol a'r llawr concrit, yn gyfan gwbl.
- Dechrau creu'r grisiau a'r ramp newydd fydd yn rhoi mynediad drwy'r ardal awyr agored newydd.
- Dechrau rhoi'r systemau draenio newydd yn eu lle fydd yn gwasanaethu'r ardal pan fydd wedi'i chwblhau.
- Dechrau llenwi'r ardaloedd er mwyn creu'r proffil a dechrau dangos sut bydd y safle'n edrych ar ôl iddo gael ei orffen.

### Tarfu cyn lleied â phosibl o hyd

Mae'r gwaith yn datblygu'n gyflym felly bydd cynnydd o ran derbyn nwyddau i'r safle a nifer y gweithwyr yn mynd a dod at ddibenion y prosiect dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Er nad yw hi'n bosibl, bob amser, gofalu bod nwyddau yn cael eu derbyn y tu allan i gyfnodau prysur yn ystod y dydd, mae Horan Construction wedi ymrwymo o hyd i darfu cyn lleied â phosibl ar ganol y dref a'r trigolion sy'n ei defnyddio.

Mae Horan Construction yn falch o gyhoeddi nad oes bwriad cau unrhyw ffyrdd yn ystod y chwarter nesaf, a byddwn yn gwneud ein gorau i gadw at hyn drwy gydol cyfnod y prosiect.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich amynedd a'ch dealltwriaeth wrth i ni weithio i gyflawni'r ailddatblygiad cyffrous yma.





### Dewch i gwrdd â'r garfan

**Ffeithiau am Dan**

**Teitl Swydd:** *Peiriannydd y Prosiect*

**Gweithio gyda Horan Construction ers pryd?** *Blwyddyn*

**Hoff Bryd o Fwyd** *Pizza*

**Hoff Gân:** *How deep is your Love*

**Hoff Ffilm:** *Monty Pythons Holy Grail*

**Yn hoffi***: Bod yn dad amser llawn ar y penwythnosau, chwarae golff*

### Yr Wybodaeth Ddiweddaraf

Rydyn ni wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned drwy gydol cyfnod y prosiect. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i sicrhau tryloywder ac ymgysylltu.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Rheolwr y Prosiect: Rob Vickery

Rhif ffôn: 07542 559100

Swyddfa'r Prosiect: 13-15 Heol Sardis

Neu e-bostiwch eich ymholiadau i: PorthyDe@rctcbc.gov.uk